Cofnodion Cyfarfod 10 o Fawrth 2015 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
YN BRESENNOL		
Daniel Williams (DW	Pat Jones	
Lena Ashley (LA)	Iestyn Harris	
George Smith (GS)	Mair Bebb Jones	
Siân Gwenllïan		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
1.0	**SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD**	
1.1	Croesawodd y Cynghorydd Daniel Williams Is- Gadeirydd y Cyngor yr aelodau i gyfarfod mis Mawrth. Cyflwynodd y Cynghorydd Daniel Williams cydymdeimlad dwysaf y Cyngor i'r Cynghorydd Mair Bebb Jones ar ei phrofedigaeth. **Ymddiheuriadau**: Ken Brown, Louise Hughes, Nerys John, Sarah Riley.	
2.0	Croesawodd y Cadeirydd, Y Parchedig Ganon Robert Townsend. Roddodd y Parchedig Ganon Robert Townsend safbwynt yr Eglwys ynglŷn â'r neuadd a chadarnhau eu bod yn agored i drafod a'r Cyngor Cymuned ar fater o ddatblygu'r neuadd a pharcio. Bydd y Parchedig Ganon Robert Townsend yn symud ymlaen i drefnu cyfarfod.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
3.1	Fe gyflwynodd y Cynghorydd Daniel Williams ffurflen ddatganiad ar gyfer eitem 10.1.	
4.0	**COFNODION**	
4.1	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 10fed o Chwefror 2015. **Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd gydag ychydig o newidiadau fel rhai cywir a'u harwyddo.**	**CLERC**
5.0	**MATERION YN CODI**	
5.1	**Mynwent -** Cynghorydd Daniel Williams am sicrhau bod y Contractwr torri gwair yn torri'r gwair ar gyfer Sul y Blodau; oherwydd bod y Sul hwn yn syrthio ym Mis Mawrth bydd y toriad yma yn ychwanegol i'r cytundeb.	**DW**
6.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD**	
6.1	Penderfynwyd byddai modd cael cyfarfod o'r is-bwyllgor i drafod materion diogelwch tân a llawr y neuadd gyda'r pensaer.	

	Penderfynwyd cwrdd nos Fawrth 17 o Fawrth 2015 am 7 y.h yn y neuadd.	**DW/KB/IH/Clerc**
7.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL**	
7.1	Cadarnhawyd gwariant mis Chwefror.	
7.2	**Cyllideb –** Cyflwynodd y Swyddog Ariannol y gyllideb ar gyfer y flwyddyn 2015 – 2016.	
8.0	**GOHEBIAETH**	
8.1	Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn - Y Cynllun Adnau- **Gwybodaeth yn unig**. - Rhoddodd y Cynghorydd Siân Gwenllïan ychydig o wybodaeth yn egluro sefyllfa datblygu tai o fewn y pentref. Rhoddodd hefyd adroddiad ynglŷn â chyfarfod Hunaniaeth. Cynghorydd Siân Gwenllïan a'r Cynghorydd Lena Ashley i weithredu ar ran y Cyngor.	
9.0	**ADRODDIAD Y CLOC**	
9.1	Dim i'w adrodd	
10.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
10.1	C15/0070/18/LL-Adeiladu sleid ddwr,gosod paneli pv gyda chyfarpar cysylltiol – Greenwood Forest Park, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4QN – **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
10.2	C15/0174/20/LL – dymchwel adeilad allanol presennol a chodi estyniad unllawr newydd – Ty Cnau 28, Y Wern, Y Felinheli LL56 4TX – **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
10.3	C15/0181/20/AM- cais amlinellol gyda'r holl faterion wedi eu cadw yn ol i godi tŷ deulawr ar wahan gyda mynedfa gerbydol newydd a llecynnau parcio – Bod Alwyn, Sea View Terrace, Y Felinheli LL56 4TQ – **DIM GWRTHWYNEBIAD** ond bod angen anfon sylwad au ynglyn a phwysigrwydd llwybr y wern a bydd bwysau trafnidiaeth yn cynyddu.	
11.0	**ADRODDIAD IS BWYLLGOR Y FYNWENT**	
	Dim i'w adrodd	
12.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
	Dim i'w drafod	
13.0	**ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU**	

13.1	Angen bin ysbwriel yng nghysgodfan bws ger yr eglwys.	
14.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Gweler Atodiad 1	
15.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
15.1	Clwb hwylio wedi derbyn manylion y cynllun, angen aros am eu sylwadau. Angen anfon at Barry Davies ynglŷn â'r gwaith angenrheidiol ar Glan y Môr	
	Daeth y cyfarfod i ben am oddeutu 8:40 yn yr hwyr.	
Llofnod:	Dyddiad:	

Atodiad 1.

Adroddiad Cynghorydd mis Mawrth

1)Bu 40 o drigolion y Felinheli yn trafod a chynllunio dulliau o sicrhau fod y cyflenwad tai yn ein pentref yn gweithio o blaid pobl leol a ffyniant y Gymraeg. Trefnwyd y cyfarfod gan hunaniaeth ar ran Cyngor Cymuned y Felinheli a Grŵp Iaith y Felinheli.

2)Y Cynllun Datblygu Lleol

Y Felinheli

- Nid oes ymestyn i ffin y pentref ac mae'r tir rhwng Tyddyn Perthi a'r Wern wedi ei dynnu allan o'r ffin.

- Lefel Twf : 19 o aneddleoedd
- Unedau wedi eu cwblhau (2011-14): 51
- Banc Tir presennol : 69
- Nifer ychwanegol sydd eu hangen: 0
- Mae hyn yn golygu nad oes tiroedd newydd yn cael eu clustnodi ar gyfer stadau'r farchnad agored yn Felinheli
- Ond os bydd prawf o angen lleol, fe ellid codi tai fforddiadwy ar ffin y pentref.

Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar y drafft diweddaraf o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn wedi dechrau. Gall pobl leol gymryd rhan drwy ymweld â gwefan y Cyngor, llyfrgelloedd y sir neu swyddfeydd y Cyngor.
Unwaith bydd y cynllun yn cael ei fabwysiadu, dyma fydd y sail ar gyfer penderfyniadau ar geisiadau cynllunio gan y ddau awdurdod yn y dyfodol. Bydd y cynllun yn gosod fframwaith polisi cynllunio ar gyfer defnydd tir hyd at 2026 yn unol â'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan sawl ffynhonnell, yn cynnwys cymunedau lleol.
Bydd Ymgynghoriad y Cynllun Adnau yn rhedeg hyd 5pm ddydd Mawrth, 31 Mawrth 2015. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hasesu a bydd adroddiad yn amlinellu sut bydd y Cyngor yn ymateb i'r materion a godwyd yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ac i'r Archwiliad Cyhoeddus. Yn dilyn hyn, mae bwriad mabwysiadu'r CDLlC yn Rhagfyr 2016.
I gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus, dylai pobl ymweld â gwefan y Cyngor <https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%C3%AFau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol-ar-y-Cyd/Cynllun-Datblygu-Lleol-ar-y-Cyd.aspx>, ble ceir ffurflen sylwadau, porth sylwadau a chanllawiau ymgynghoriad.
Am fwy o wybodaeth, ac i brynu copïau papur o'r dogfennau ymgynghorol, cysylltwch ag Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn:

- Cyfeiriad – Llawr Cyntaf, Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor, Ffordd Gwynedd, Bangor LL57 1DT
- Ffôn - 01286 685003 o'r 01766 771000
- e-bost – polisicynllunio@gwynedd.gov.uk